
Dŵr Cymru
Welsh Water



# Datrys problemau gyda dŵr - 1

## 1 litr o ddŵr glân o'ch tap = tua 0.25 ceiniog.
## Felly, 4 litr = 1 geiniog.

1. Mae bwced mawr yn dal 10 litr o ddŵr. Os yw Rhys yn defnyddio 1 llond bwced o ddŵr â sebon a 4 llond bwced o ddŵr glân, sawl litr o ddŵr fydd Rhys yn eu defnyddio i olchi ei gar?
2. Mae pibell ddŵr yn defnyddio 9 litr o ddŵr mewn munud. Mae Sam yn golchi ei gar gan ddefnyddio 1 llond bwced o ddŵr â sebon (10 litr) a phibell ddŵr. Mae'n rhy ddiog i gau'r tap pan na fydd yn defnyddio'r bibell ac felly mae'r dŵr yn rhedeg i lawr y dreif. Mae'n cymryd 20 munud i olchi'r car. Faint o ddŵr mae wedi'i ddefnyddio?
3. Edrychwch ar eich atebion i gwestiynau 1 a 2. Mae Sam wedi defnyddio mwy o ddŵr na Rhys. Faint yn fwy?
4. Mae bath yn defnyddio tua 80 litr o ddŵr. Os yw Megan yn cael bath bob dydd, faint o ddŵr mae hi'n ei ddefnyddio mewn wythnos?
5. Mae Joe yn cael cawod bob dydd. Mae cawod 5 munud yn defnyddio tua 35 litr o ddŵr. Faint o litrau mae Joe yn eu defnyddio mewn wythnos?
6. Edrychwch ar eich atebion i gwestiynau 4 a 5. Faint yn fwy o ddŵr mae Megan yn ei ddefnyddio na Joe?
7. Mae peiriant golchi Vikki yn defnyddio 80 litr bob tro. Os yw Vikki'n golchi dau lwyth ar ddydd Sadwrn ac un llwyth bob diwrnod arall, faint o litrau o ddŵr mae hi'n ddefnyddio?
8. Mae mesurydd dŵr yn dangos bod teulu o bedwar wedi defnyddio 600 litr o ddŵr mewn diwrnod. Faint o ddŵr fyddan nhw'n ei ddefnyddio mewn wythnos?
9. Mae Laura'n gadael y tap i redeg pan fydd yn brwsio'i dannedd. Gan fod y tap yn rhedeg yn araf, dydi hi ddim yn meddwl ei bod yn gwastraffu llawer o ddŵr. Mae'r tap yn defnyddio 6 litr y funud ac mae hi'n brwsio'i dannedd am ddwy funud. Faint o ddŵr fydd hi'n ei wastraffu os yw hi'n brwsio'i dannedd yn y bore a'r nos?
   ESTYNIAD: Faint o ddŵr fyddai hi'n ei wastraffu dros wythnos gyfan?
10. Mae Emily'n cael cawod 5 munud. Mae'r gawod yn defnyddio tua 7 litr o ddŵr y funud.
    a. Faint o litrau fydd hi'n eu defnyddio i gael un cawod?
    b. Faint o litrau fyddai hi'n eu defnyddio pe bai'n cael cawod bob diwrnod?
    c. Pe bai hi'n cael cawod am 4 munud bob dydd, faint o ddŵr fyddai hi'n ei ddefnyddio yn y gawod mewn wythnos gyfan?

